| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor Craffu** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 8 Chwefror, 2022 |
| **Teitl yr Eitem** | Hygyrchedd Ysgolion |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

**1 PWRPAS YR ADRODDIAD**

i) Pwrpas yr adroddiad hwn ydy nodi'r sefyllfa bresennol o ran hygyrchedd ysgolion, gan amlinellu sut y bu cyrraedd y sefyllfa hon, ac yna edrych ar y ffordd ymlaen.

**2 CEFNDIR**

i) Roedd 'Cynllun Ni - Cynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd (2008 – 2011) yn nodi cam gweithredu fel a ganlyn:

*"Gweithredu strategaeth ar gyfer sicrhau fod un Ysgol Uwchradd ym mhob rhanbarth ac un Ysgol Gynradd ym mhob dalgylch yn ddynodedig ar gyfer sicrhau mynediad at gwricwlwm llawn i blant a phobl ifanc anabl."*

ii) Roedd arian cyfalaf penodol wedi'i adnabod ar gyfer y Strategaeth Anabledd Ysgolion. Erbyn 2017 cwblhawyd y strategaeth trwy wneud addasiadau i'r ysgol olaf yn y cynllun, sef Ysgol Llanllechid (dalgylch Ysgol Dyffryn Ogwen).

iii) Yn ogystal ag addasu ysgolion dynodedig oedd wedi'u hadnabod o dan y Strategaeth Anabledd Ysgolion, rhoddwyd cymorth i ysgolion eraill wneud addasiadau wrth i ddisgyblion ag anableddau ddewis mynediad i'r ysgolion hynny.

iv) Mae rhestr lawn o'r ysgolion a adnabuwyd fel ysgolion dynodedig o dan y Strategaeth Anabledd Ysgolion yn ogystal â'r ysgolion eraill y gwnaed gwaith addasu anabledd ynddynt i'w gweld yn **ATODIAD 1 - Ysgolion Strategaeth Anabledd hyd at 2017**.

**3 ADDASIADAU I YSGOLION TRWY WAITH MODERNEIDDIO YSGOLION**

i) Fe welir yn y rhestr o ysgolion yn **ATODIAD 1 - Ysgolion Strategaeth Anabledd hyd at 2017** gyfeiriad at ysgolion oedd yn mynd i gael adeiladau newydd neu addasiadau i adeiladau trwy gyfrwng y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (e.e. Llanelltyd, Rhydymain, OM Edwards).

ii) Wrth adeiladu ysgolion o'r newydd neu wrth wneud addasiadau sylweddol i adeiladau ysgolion sicrheir bod yr adeiladau newydd yn hygyrch.

## 4 ACHOSION YSGOLION UNIGOL

i) O bryd i'w gilydd ceir sefyllfaoedd na ellir yn hawdd eu rhagweld, e.e. disgybl gydag anableddau yn symud i mewn i ardal newydd ac yn dymuno mynychu'r ysgol leol sydd ddim wedi'i haddasu ar gyfer disgyblion ag anableddau. Yn yr achosion hyn gwneir pob ymdrech i gwrdd â dymuniadau'r disgybl/rhieni trwy gydweithio efo'r disgybl/rhieni a'r ysgol dan sylw.

ii) Mae gofyn i ysgolion wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau, ond yn aml mae cyfanswm cost yr holl addasiadau fyddai'n ddymunol y tu hwnt i gyllideb yr ysgol unigol.

iii) Er nad oes cyllideb penodol gan yr Adran Addysg ar gyfer ariannu gwaith cyfalaf i gynorthwyo ysgolion i ymateb i sefyllfaoedd fel hyn, edrychir ar bob sefyllfa yn unigol gan bwyso a mesur a fyddai modd wneud cyfraniad o gyllidebau eraill yr Adran neu beidio.

iv) Yn y gorffennol, mae'r Adran wedi llwyddo i gefnogi ysgolion unigol wrth gydbwyso'r costau o wneud gwaith ffisegol yn yr ysgol leol o'i gymharu â'r costau cludiant ychwanegol fyddai'n deillio o gludo disgybl i ysgol sy'n addas o ran hygyrchedd i'r disgybl dan sylw.

## 5 SEFYLLFA BRESENNOL

i) Mae'r Adran wedi cynnal archwiliad o'r stoc ysgolion uwchradd er mwyn sicrhau bod gennym ni wybodaeth glir ynghylch hygyrchedd i ddisgyblion.

## 6 CAMAU NESAF

i) Mae gwaith ar droed i adnabod ysgolion uwchradd ble'r ydym yn gwybod bod disgyblion ag anableddau ganddynt yn eu hysgolion dalgylch cynradd ar hyn o bryd. Ar gyfer yr ysgolion uwchradd hynny nad ydynt yn hygyrch, rydym yn ceisio adnabod ffynonellau ariannol er mwyn gallu cyflawni'r gwaith hygyrchedd sydd ei angen yn yr ysgolion.

## 7 ARGYMHELLION

i) Gofynnir i'r aelodau gyflwyno sylwadau ar y sefyllfa hygyrchedd ysgolion